

Cofnodion Cyfarfod llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher Mehefin 17eg 2020, cyfarfod Zoom am 5.00yh. (Dechreuodd y cyfarfod am 5.15 yn dilyn rhai materion technegol)

Presennol: Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle, Rhys Thomas (Cadeirydd), Roy Tickle, Catherine Jones, Gaynor Morgan Rees, Alyn Ashworth, Dyfrig Berry, Glenn Swingler, Philip Stevens, Irene Williams & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Clerc y Dref) & Carys Jones (Cynorthwydd Dinesig)

Ymddiheuriadau: Cyngorydd Rob Parkes

Cadeiriodd y Cyng Rhys Thomas y cyfarfod gan fod Cyng Gaynor Wood-Tickle yn cael problemau technegol.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r ail gyfarfod llawn y cyngor ym mis Mehefin.

183. Datganiad Diddordeb Personol:

Cynghorydd	Eitem	Bersonol neu Niweidiol
Catherine Jones	7 (b)	Personol
Gaynor Wood-Tickle	12	Niweidiol
Roy Tickle	12	Niweidiol

184. Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Mercher 27ain o Fai 2020 (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd hwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

185. Materion yn codi:

- a) Llythyr wedi'i anfon at Bethan Jones, Cyfarwyddwr Ardal Ganolog, Betsi Cadwaladr 14.05.20 ynghylch gwelyau yn yr ysbyty. Ni chafwyd ateb hyd yma. Nodwyd.
- b) Derbyniwyd cadarnhad bod cyngor Tref Dinbych wedi llwyddo i gael pecyn bywyd gwyllt ar gyfer Parc Isaf Dinbych. Nodwyd
- c) Oherwydd y pandemig presennol, nid oes angen talu am ddigwyddiadau'r Trefi Caerog eleni. Nodwyd
- ch) Eitem 155, Ardal cerdded cŵn - cadarnhad o grant £7k. Nodwyd. Bydd Clerc y Dref yn cysylltu hefo Jon Chapman pan mae yn bosib trefnu ymweliad safle i edrych ar y mesuriadau.
- d) Eitem 162/3.a - diweddariad gan Bodfari Environmental. Nodwyd, hefyd mae Cyng Catherine Jones wedi bod yno yn symud malurion.
- dd) Eitem 179/a - diweddariad wedi'i dderbyn gan Paul Mead, CSDd. Nodwyd.
- e) Eitem 180.1, wedi'i dderbyn gan ULIC. Nodwyd a chytunwyd y Cynghorwyr i ddefnyddio Office 365. Bydd y Clerc y dref a Cyng Dyfrig Berry angen trafod y ffordd orau i symud ymlaen.

186. Coronofirws.

I dderbyn diweddariadau gan y llywodraeth, ULIC, SLCC, NALC a CSDd mewn perthynas â'u trefniadau wrth gefn/diweddariad ac argymhellion arfaethedig. (wedi'i gylchredeg eisoes os yw'n berthnasol.

Dim diweddariadau pellach ar hyn o bryd. Dywedodd Cyng Rhys Thomas for CSDd wedi gofyn i Betsi Cadwaladr am fwy o fanylion ynghylch Sir Ddinbych ond dim ymateb eto. Llauer o waith yn digwydd yn yr ysgolion i baratoi at agor Mehefin 29. Dywedodd y Cyng Catherine Jones ei fod ar Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a bydd yn adrodd yn ôl os oes unrhyw ddiweddariad.

187. Archwiliad: Cadarnhaodd Clerc y Dref fod yr archwiliad mewnol wedi'i gwblhau ar yr 8fed o Fehefin. Tynnwyd sylw at 2 fater sydd bellach wedi eu diwygio. Dosbarthwyd a derbyniwyd copi o'r adroddiad blynyddol a'r archwiliad gan y Cynghorwyr Tref. Cytunwyd hefyd ar y llyfr arian parod a ffigurau/adroddiad diwedd blwyddyn gan y Cynghorwyr Tref. Oherwydd yr amser cloi ni ellir llofnodi'r llyfr arian parod. Bydd Clerc y Dref yn ychwanegu enwau mynychwyr y cyfarfod at y llyfr fel cadarnhad ei fod wedi eu derbyn. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cael ei llofnodi gan y cadeirydd cyn ei anfon at yr archwilydd allanol.

188. Cyllid.

a) Taliadau mis Mehefin - cytunwyd a nodwyd y canlynol

1) Jones & Graham, cyflog mis Mehefin (Rhif siec 007031)	-	£2422.31
2) Jones & Graham, HMRC Mehefin (Rhif siec 007051)	-	£630.36
3) Jones & Graham, Clwyd Pension Mehefin (Rhif siec 007052)	-	£749.05
4) Cyng D Berry, Siec Ddyblyg 007015 (Rhif siec 007064)	-	£120.00
5) J Barlow, Teithio Archwiliad (Rhif siec 007065)	-	£41.40
6) Dŵr Cymru, Gardd Dr E.P. (Rhif siec 007066)	-	£10.03
7) Catalyst, Band eang mis Mehefin (Rhif siec 007067)	-	£38.00
8) Catalyst, Mai wrth gefn (Rhif siec 007068)	-	£4.68
9) P Liversidge, Ebrill & Mai Glaswellt (Rhif siec 007069)	-	£330.00
10) J Barlow, Ad-daliad - Zoom (Rhif siec 007070)	-	£14.39
11) ASL, Llungopiâu 14.05.20-04.06.20 (Rhif siec 007071)	-	£6.28

Cyfanswm £4,366.50

2) Cytunwyd y Cynghorwyr Tref y taliadau canlynol -

- a) anfoneb CSDd £19,000.00 - Cyfraniad blynyddol terfynol, neuadd y dref 2019/2020
(Rhif siec 007072)
- b) JDH - dau archwiliad interim ac archwiliad diwedd blwyddyn 2019/2020 - £936.00.
(Rhif siec 007073)

3) Dyfynbris- Catalyst, meddalwedd amgryptio 12 mis - Cytunwyd gan y Cynghorwyr Tref

b) Cais am gymorth. Is-grŵp Carnifal Dinbych: Clwb Crefftau Carnifal - , S137 £1,247.00.
Rhif siec 007074.

c) I'w nodi - hysbysiadau diolch a diweddariad S137.
Carnifal Dinbych - Grŵp Crefftau - Nodwyd

d) Rheoleiddir Pensiwn - Cadarnhaodd Clerc y Dref fod yr ail-ddatgan cydymffurfiad wedi'i gwblhau

189. Ceisiadau cynllunio:

Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau ar y ceisiadau isod:

a) 01/2020/0405

Codi adeilad ciw bicl a storio amaethyddol.
Fferm Tŷ Newydd, Trefnant, Dinbych.

b) 01/2020/0348

Newidiadau ac estyniadau i adeilad allanol i ffurfio gosod gwyliau a gwaith cysylltiedig.
Tan Y Parc, Dinbych.

Hoffai'r Cynghorwyr Tref nodi na ellir defnyddio'r gosodiad gwyliau trwy gydol y flwyddyn fel cartref parhaol.

190. Prynu Goleuadau Coeden Nadolig. Cytunwyd hyn gan y Cynghorwyr tref.

191. Marchnad Fenyn - Diweddariad gan y Cyng Catherine Jones.

Bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio fel menter gymunedol. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn cael achos busnes a gwnaed cais i weld achos busnes neuadd y dref CTD. Trafodwyd hyn gan y Cynghorwyr tref a chytunwyd i rannu'r rhan ysgrifenedig gan fod angen i'r Cyngor weithio ochr yn ochr ar gyfer partneriaethau yn y dyfodol. Diolchodd y Cyng Rhys Thomas i'r Cyng Catherine Jones am fynychu'r cyfarfodydd a diweddarau'r Cynghorwyr Tref.

192. Gwefan - diweddarau hygyrchedd anabledd.

Rhoddodd y Cyng Dyfrig Berry ddiweddariad pellach: Bydd yn anfon cyfrineiriau mewn amser i bawb gael golwg cyn dod ar fater nol i'r Cyngor llawn i gytuno. Yn barod i fynd yn fyw mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau yn Fis Medi. Angen sicrhau bod yr holl fanylion y wefan yn aros arno gan fydd yr archwilydd allanol yn edrych arno flwyddyn yma.

193. Trosglwyddo asedau Neuadd y Dref - Diweddariad gan Tom Booty.

Trafododd Clerc y Dref yr e-bost a dderbyniwyd ar faterion sydd dal heb eu datrys. Nodwyd fod Tom Booty wedi cynghori na fydd Ebrill 2021 yn realistig erbyn hyn. Dywedodd Clerc y Dref ei bod dal yn aros am gytundeb gwasanaeth 2020-21. Trafodwyd a oedd angen trefnu cyfarfod 'Zoom' ar gyfer y grŵp fel gellir gofyn am y materion sydd yn weddill. Cytunwyd i drefnu cyfarfod ar gyfer mis Gorffennaf.

194. Argymhelliad am ddyfarniad Covid - llythyr cefnogaeth.

Trafodwyd hyn gan y Cynghorwyr Tref a chynigwyd a chytunwyd y bydd y Cyngor Tref yn gyrru llythyr o gefnogaeth.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 6.53 yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....